Cydymdeimlad a Chofion

Gyda thristwch y daeth y newyddion yr wythnos ddiwethaf am farwolaeth Mrs Edna Evans (Llanfair). Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'r teulu yn eu profedigaeth. Yn yr un modd, cydymdeimlwn â Rhian Jones (Groes) a gweddill y teulu ym marwolaeth ei thad, Mr Emyr Jones, Rhuthun. Trist oeddem hefyd o glywed am farwolaeth brawd i Maldwyn Davies (Llansannan) a Megan Thomas (Cefn Berain), sef Eurwyn Davies o Lannefydd. Estynnwn ein cydymdeimlad â hwythau a gweddill y teulu yn eu profedigaeth. Gweddïwn y bydd y teuluoedd hyn yn adnabod holl ddaioni Duw yn gwarchod drostynt dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf hyn.

Anfonwn ein cofion at Merfyn Hughes (Llansannan) sy'n parhau i gael gofal yng Nghanolfan Walton, Lerpwl, a chofiwn hefyd am Meira Jones (Groes) ac Emlyn Davies (Llansannan) ac eraill o'n plith sydd wedi bod yn cael gofal mewn ysbyty yn ddiweddar. Cyflwynwn hwy oll i ofal Duw gan weddïo y bydd pob un ohonynt yn cael adferiad iechyd buan iawn ac y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn rhoi nerth a chysur iddynt yn eu hangen.

Cyrsiau Coleg y Bala

Dyma'r cyrsiau fydd yn cael eu cynnal yng Ngholeg y Bala yn ystod mis Mai:

- **Miri Mai 12-14 o Fai : i blant 8-11 oed.** Archebwch fan hyn.
- **Penwythnos Chwaraeon 20-21 o Fai : i flynyddoedd uwchradd 7-10.** Archebwch fan hyn.

Os nad yw'n bosibl i chi archebu arlein neu os oes gennych chi unrhyw gwestiwn plis cysylltwch â colegybala@ebcpcw.cymru / 01678 520565 iddyn nhw bostio copi o'r ffurflen gofrestru atoch chi. (Cofiwch mai hanner y pris fydd y gost i'r ail neu drydydd plentyn o'r un teulu, a bod Eglwysi Bro Aled yn cynnig £10 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sy'n byw o fewn dalgylch yr Ofalaeth hon ac sydd am fynychu.)

Gwaith cwrs

Gwahoddir yr Ysgolion Sul i roi'r gwaith a wneir ar y Sul mewn llun neu mewn unrhyw ffurf/gyfrwng arall i greu arddangosfa yng Nghyfarfod Gwobrwyo'r Ysgol Sul a gynhelir yng Nghapel y Fron, Dinbych nos Wener Mai 26ain am 6.30 yr hwyr. Bydd angen mynd â'r gwaith i Gapel y Fron erbyn 5:45 yr hwyr ar y noson wobrwyo er mwyn iddo gael ei osod ar y byrddau.

Manylion Cyswllt

Rhodri – rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 07814 660291

Mair – mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn nos Fercher (19eg), os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 9 Ebrill 2023

eglwysibroaled.com rhaglendorcas.com llanw.org

Profiad digon rhyfedd yw cael eich atgoffa o rywbeth yr oeddech wedi ei anghofio. Mae wedi digwydd fwy nag unwaith i mi yn ddiweddar, a hynny'n bennaf oherwydd clyfrwch ffonau symudol a chyfrifiaduron. Erbyn hyn gall nifer o raglenni ddod â hen luniau neu fideos i'ch sylw i goffáu beth ddigwyddodd ar y diwrnod hwn flynyddoedd yn ôl. Yr wythnos diwethaf gwelais hen fideo o Lleucu'n canu a achosodd i mi ryfeddu gan mai prin yr oeddwn yn ei hadnabod, cymaint y mae hi wedi newid ers hynny. Atgoffa dymunol oedd hynny, ond gwyddom fod atgofion yn gallu effeithio'n drwm arnom, a bod yn eithriadol o boenus hefyd os ydynt yn ein hatgoffa o gyfnod neu berson annwyl yr ydym yn hiraethu amdanynt.

Dros y dyddiau nesaf bydd Cristnogion ar draws y byd yn cael eu hatgoffa o'r hyn a ddigwyddodd i'r Arglwydd Iesu oddeutu dwy fil o flynyddoedd yn ôl. Trwy gyfrwng darlleniadau o'r Beibl, emynau a phregethau, clywir am Fab Duw yn cael ei arestio a'i groeshoelio rhwng dau leidr, cyn i'w gorff gael ei roi mewn bedd. Petai hanes y Pasg yn gorffen yn y fan yma, mae'n annhebygol y byddai unrhyw un yn mentro galw'r hanes yn 'newyddion da'. Ond ar y trydydd dydd daeth neges ryfeddol yr oedd y ddwy Fair i'w rhannu â gweddill y disgyblion: *"Y mae wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw, ac yn awr y mae'n mynd o'ch blaen chwi i Galilea; yno y gwelwch ef." (Mathew 28:7)*

Oherwydd yr Atgyfodiad mae Cristnogion yn cael eu hatgoffa o'r hyn ddigwyddodd i Grist yn ei gwmni Ef, gyda buddugoliaeth Iesu dros bechod a marwolaeth yn rhoi gobaith hyd yn oed i'r rhai sy'n hiraethu a galaru. I'r Cristion mae'r Pasg yn amser i fyfyrio ar ddifrifoldeb pechod a mawredd cariad Duw sydd wedi'i amlygu yn aberth unigryw ei Fab.

'Drwy aberthu ei hun un waith mae'r Meseia wedi glanhau'n berffaith y bobl mae Duw wedi'u cysegru iddo'i hun am byth.' (Hebreaid 10:14 Beibl.net)

Felly wrth ddathlu'r Pasg, nid cofio digwyddiadau hanesyddol yn unig yr ydym yn ei wneud, ond gofyn i'r Crist byw, trwy ei Ysbryd Glân, effeithio'n drwm arnom heddiw, a phob dydd o'r newydd.

Cof am yr ŵyneb siriol
y poerwyd arno'n wir;
cof am y cefen gwerthfawr
lle'r arddwyd cwysau hir;

O annwyl Arglwydd Iesu,
boed grym dy gariad pur
yn torri 'nghalon galed
wrth gofio am dy gur. (CFF 500)

Rhodri

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Ebrill 9fed

- **Oedfa yn Llanfair** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad Rhodri. Bydd **Ysgol Sul yr oedolion yng Nghefn Meiriadog** am 2:00.
- **Oedfa Thema yn Henllan** am 9:30 ac **Oedfa Deuluol Sul y Pasg yn Llannefydd** am 11:00 o dan arweiniad Mrs Nia W. Williams.
- **'Gwreiddiau' –** Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Andras Iago (07778 511672).

Dydd Mawrth, Ebrill 11eg

- **NI FYDD Cinio Jangl** yn Festri Llansannan heddiw.

Dydd Sul, Ebrill 16eg

Bydd dau gynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol mewn un oedfa ymhob capel yn yr Ofalaeth naill ai heddiw (16eg) neu Sul nesaf (23ain). Trwy bleidlais ddirgel, byddant yn gofyn a ydych o blaid galw Gweinidog i fugeilio'r eglwys, a bydd pleidlais ddirgel arall yn cael ei chynnal er mwyn dewis UN aelod (nad yw yn flaenor nac yn ddiacon) i gynrychioli eich eglwys ar y Pwyllgor Bugeiliol (os bydd y Pwyllgor yn dod yn weithredol). Cewch enwi y nifer a fynnwch, ond yr aelod fydd wedi derbyn y nifer uchaf o bleidleisiau fydd yn cynrychioli eich eglwys ar y Pwyllgor Bugeiliol, ynghyd â blaenoriaid a diaconiaid yr Ofalaeth, a chynrychiolwyr o'r Henaduriaeth a'r Cwrdd Chwarter.

- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog** am 9:30 ac **Oedfa (a phleidleisio) yn Llansannan** am 11:00, y ddwy oedfa o dan arweiniad y Parch. Aron Treharne. (*Bydd pleidlais ddirgel arall hefyd yn cael ei chynnal yn Llansannan i ofyn a yw'r eglwys yn bleidiol i ethol mwy o flaenoriaid.*) Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa (a phleidleisio) yng Nghefn Berain** am 9:30 ac **Oedfa (a phleidleisio) yn Groes am 11:00,** y ddwy oedfa o dan arweiniad Rhodri. Bydd **Ysgol Sul yn Groes** am 10:15.
- **Oedfa (a phleidleisio) yn Saron** am 10:00 ac **Oedfa (a phleidleisio) yn Nantglyn** am 2:00, y ddwy oedfa o dan arweiniad Mr Arawn Glyn.
- **Cyfarfod Eglwys Hiraethog (a phleidleisio)** yn y Granar, Llansannan am 5:30.
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6:00 gydag Eryl Davies yn arwain a Rhodri yn pregethu.

Dydd Mawrth, Ebrill 18fed

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.

Dydd Sul, Ebrill 23ain

Gweler y cyflwyniad o dan Ebrill 16eg i'r hyn fydd yn digwydd hefo'r pleidleisio.

- **Cyfarfod Gweddi (a phleidleisio) yn Llanfair** am 10:00 a **Chyfarfod Gweddi (a phleidleisio) yng Nghefn Meiriadog** am 10:30, a bydd **Ysgol Sul yr oedolion yng Nghefn Meiriadog** am 2:00.
- **Cyfarfod yn Llansannan** am 11:00 yng nghwmni Mrs Cheryl Williams fydd yn rhannu am Apêl Arbennig Cymorth Cristnogol – 'Hadau Gobaith'. Gwneir casgliad arbennig yn ystod yr oedfa. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa.
- **Oedfa (a phleidleisio) yn Llannefydd** am 9:30 ac **Oedfa (a phleidleisio) yn Henllan am 11:00,** y ddwy oedfa o dan arweiniad y Parch. Aneurin Owen. (*Bydd pleidlais ddirgel arall hefyd yn cael ei chynnal yn Henllan i ofyn a yw'r eglwys yn bleidiol i ethol mwy o flaenoriaid.*) Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llannefydd ac **Ysgol Sul y plant yn Henllan** am 10:00.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 ac **yn Nantglyn** am 2:00 o dan arweiniad Rhodri.

Rhaghysbys

- Cynhelir oedfa arbennig **nos Sul, Ebrill 30ain** yn Llansannan am 6:00 yr hwyr i ffarwelio ac i ddiolch i Rhodri am ei wasanaeth dros y blynyddoedd inni yma ym Mro Aled. Bydd croeso cynnes i bawb i'r oedfa.

Gŵyl Llanw 2023

Bydd yr Ŵyl Gristnogol 'Llanw' yn cael ei chynnal yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog **yr wythnos hon, rhwng Ebrill 10fed-13eg.** Cynhelir oedfa pob bore a phob nos, a bydd seminarau amrywiol yn cael eu cynnal yn ystod y dydd. Y prif siaradwr nos Lun, nos Fawrth a nos Fercher fydd Stuart Bell, a bydd John a Rachel Settatree, Simeon Baker a Nan Wyn Powell-Davies yn arwain yn y boreau yn eu tro. Bydd gwaith plant a ieuenctid yn ystod yr oedfaon yn y bore a'r hwyr, a bydd cyfle hefyd i fanteisio ar gyfleusterau'r gwersyll yn ystod y dydd. Wedi oedfa'r nos bydd cyfle i ymuno mewn gweithgareddau anffurfiol pellach neu gyfle i ymlacio a chymdeithasu. Ewch i'r wefan llanw.org/llanw-23/ i gael mwy o fanylion.

Casgliad Cenhadol Chwiorydd y Gogledd (EBC)

Os ydych yn dymuno cefnogi gwaith cenhadol yn lleol a thramor, bydd trysorydd eich eglwys yn ddiolchgar o dderbyn eich cyfraniad **HEDDIW** fan bellaf, os gwelwch yn dda. (***Nodyn i'r Trysoryddion***: *A wnewch chi roi gwybod i Mair erbyn **Ebrill 11eg** gyfanswm casgliad eich eglwys, ac yna trosglwyddo'r arian i Mair naill ai ar-lein, neu trwy anfon siec yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled', mor fuan â phosib wedi hynny, os gwelwch yn dda?*)